

Pam dylai Cymru wahardd smacio nawr

Pwysau hawliau dynol rhyngwladol a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

'Sdim Curo Plant!
Children are Unbeatable!

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig o dan bwysau cyson i gyflawni ei rhwymedigaethau hawliau dynol clir i wahardd pob cosb gorfforol i blant, a hynny gan gyrff a mecanweithiau monitro hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig ac Ewrop, fel y manylir isod.

Mae hawl plant i barch at eu hurddas dynol a'u hintegriti corfforol, ac i amddiffyniad cyfartal o dan y gyfraith, yn gofyn bod amddiffyniad "cosb resymol" yn cael ei ddileu yn llwyr. Mae hyn yn hanfodol i statws plant mewn cymdeithas, yn ogystal ag i'w lles, eu diogelwch a'r amddiffyniad a roddir iddynt. Cosb gorfforol yw'r unig ffurf ar drais rhwng pobl sy'n dal yn gyfreithlon yn y DU.

Ers dros 10 mlynedd mae Llywodraethau olynol Cymru wedi ymrwymo'n gyhoeddus i wahardd cosb gorfforol – mewn cyferbyniad â Llywodraeth y DU, sydd wedi parhau i wrthsefyll gwneud hynny. Adroddwyd am yr ymrwymiad hwn i Bwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn 2007, a chafodd ei gydnabod gan y Pwyllgor yn 2008.

Cadarnhaodd Prif Weinidog Cymru ym mis Hydref 2011 fod gan y Cynulliad Cenedlaethol bellach bŵer datganoledig i gyflawni'r diwygiad hwn. Yn gynharach yn 2011 pleidleisiodd y Cynulliad yn unfrydol o blaid Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), gan osod dyletswyddau ffurfiol ar Weinidogion Cymru i barchu hawliau plant.

Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hawliau plant a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Mae Llywodraethau cyfredol a blaenorol Cymru wedi mynegi eu hymrwymiad llawn i lunio polisiâu ar sail hawliau, gydag ymrwymiad arbennig i hawliau plant. Yn ôl Rhagair y Gweinidog i'r Cynllun Hawliau Plant, a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 27 Mawrth 2012:

"Ein gweinyddiaeth ni yw'r gyntaf yn y DU i gynnwys CCUHP mewn cyfraith ddomestig, ac mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn enghraifft o'n hymrwymiad ni fel Gweinidogion i osod hawliau plant a phobl ifanc yng nghalon pob peth a wnawn.

"Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd arnom ni fel Gweinidogion i roi sylw dyledus i CCUHP, a'n cyfrifoldeb ni yw sicrhau ein bod yn cydymffurfio ag ef. Nid yw'r gyfraith yn caniatáu i ni drosglwyddo ein cyfrifoldeb i eraill, er enghraifft i'n staff. Rydym wedi nodi'n glir yn ein Maniffesto ein hymrwymiad i sicrhau bod y Mesur

yn cael ei weithredu'n llawn ym mholisiau a rhaglenni'r llywodraeth drwy gydol y weinyddiaeth hon...

“Ein nod yw sicrhau diwylliant yn Llywodraeth Cymru lle ceir dealltwriaeth lawn o hawliau plant, fel ein bod yn mynd ati'n fwriadus i'w hystyried yn ein holl waith.”

Derbyniodd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 gefnogaeth unfrydol ar draws y pleidiau pan basiwyd ef gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 18 Ionawr 2011; daeth i rym ar 16 Mai 2011. Cymru, felly, oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymgorffori rhwymedigaethau uniongyrchol yn ei deddfwriaeth i roi “sylw dyledus” i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu deddfwriaeth a pholisi.¹

Ers mis Mai 2012, bu'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi “sylw dyledus” i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn wrth wneud unrhyw benderfyniad ynghylch:

- “(a) darpariaeth y cynigir ei chynnwys mewn deddfiad;
- (b) llunio polisi newydd;
- (c) adolygiad neu newid i bolisi sydd eisoes yn bodoli.”

Wrth gyflwyno'r trefniadau y maent wedi'u mabwysiadu ar gyfer cydymffurfio â'u dyletswydd o dan y Mesur Hawliau, mae'n ofynnol bod Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw i adroddiadau'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn a hefyd (o dan adran 3(1)(a) o'r Mesur) i adroddiadau astudiaethau a gynhaliwyd o dan erthygl 45 (c) o'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'n ofynnol, felly, i Weinidogion Cymru ystyried y dehongliad clir a chyson o'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn gan y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn – sef bod cydymffurfio ag ef yn golygu dileu amddiffyniad “cosb resymol” ar unwaith, gan wahardd cosb gorfforol i bob pwrpas.

Mae'n rhaid iddynt hefyd roi sylw i adroddiad Astudiaeth Ysgrifennydd Cyffredinol y CU ar drais yn erbyn plant, y gofynnwyd amdano gan y Pwyllgor o dan erthygl 45 (c). Adroddodd yr Astudiaeth i Gynulliad Cyffredinol y CU yn 2006; un o'r argymhellion allweddol oedd gwahardd pob math ar drais yn erbyn plant, gan gynnwys yn benodol bob cosb gorfforol.

Mae'r briffiad hwn yn manylu ar y pwysau hawliau dynol i sicrhau amddiffyniad cyfartal i blant nawr.

Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn

Mae'r **Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn** wedi dweud wrth y DU dair gwaith y dylai ddileu amddiffyniad “cosb resymol”, yn 1995, 2002 a 2008. Yn ogystal, mae Sylw Cyffredinol Rhif 8 y Pwyllgor, ar hawl y plentyn i amddiffyniad rhag cosb gorfforol a mathau eraill o gosb greulon neu ddiraddiol, yn pwysleisio bod gwaharddiad yn “rhwymedigaeth uniongyrchol a diamwys ar Wladwriaethau sy'n bartïon.” Mae dau Sylw Cyffredinol arall – datganiadau awdurdodol

¹ Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru), 2011, adran 1

ynghylch dehongliad y Pwyllgor o rwymedigaethau gwladwriaethau o dan y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn – wedi tynnu sylw at yr angen am wahardd a dileu cosb gorfforol (Sylwadau Cyffredinol Rhif 13 ar hawl y plentyn i ryddid rhag pob math ar drais (2011) a Rhif 15, ar hawl y plentyn i iechyd (2013)).

Yn 2002, yn ei sylwadau terfynol ar ôl archwilio adroddiad y DU, dywedodd y Pwyllgor:

“Mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw cynigion y Llywodraeth i gyfyngu ar amddiffyniad 'cosbedigaeth resymol' yn hytrach na'i ddileu yn cydymffurfio ag egwyddorion a darpariaethau'r Confensiwn a'r argymhellion a nodwyd eisoes, yn enwedig gan eu bod yn achos difrifol o ddiystyru urddas y plentyn (gweler sylwadau tebyg y Pwyllgor ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, E/C.12/1/Add.79, para. 36). Ymhellach, maent yn awgrymu bod rhai mathau o gosb gorfforol yn dderbyniol, ac felly'n tanseilio mesurau addysgol i hybu disgyblaeth gadarnhaol a di-drais.”²

Yn ei sylwadau terfynol yn 2008, nododd y Pwyllgor:

“Mae'r Pwyllgor, er ei fod yn nodi newidiadau i ddeddfwriaeth yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n cyfyngu ar y defnydd o amddiffyniad 'cosbedigaeth resymol', yn pryderu nad yw'r amddiffyniad hwn wedi cael ei ddileu. **Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wahardd pob cosb gorfforol yn y cartref, ond mae'n nodi o dan delerau datganoli nad oes modd i'r Cynulliad greu'r ddeddfwriaeth angenrheidiol [ein pwyslais ni].** Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch methiant plaid y Wladwriaeth i wahardd yn benodol pob cosb gorfforol yn y cartref, ac mae'n pwysleisio ei farn nad yw bodolaeth unrhyw amddiffyniad mewn achosion o gosbi plant yn gorfforol yn cydymffurfio ag egwyddorion a darpariaethau'r Confensiwn, gan fod hynny'n awgrymu bod rhai mathau o gosb gorfforol yn dderbyniol.”³

Pwysau hawliau dynol arall ar lefel Ewropeaidd a rhyngwladol

Mae Cyrff Cytuniadau hawliau dynol eraill y CU wedi adleisio'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn wrth argymhell gwaharddiad:

- **Y Pwyllgor ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol:** ddwywaith, yn 2002 a 2009. Yn 2002 gwnaeth ei argymhelliad yng ngoleuni “egwyddor urddas yr unigolyn, sef sylfaen cyfraith hawliau dynol ryngwladol...”. Ailadroddodd y Pwyllgor ei argymhelliad yn 2009.⁴

² Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, sylwadau terfynol ar ail adroddiad y DU, 9 Hydref 2002, CRC/C/15.Add.188

³ Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, sylwadau terfynol ar 3ydd a 4ydd adroddiad y DU, 3 Hydref 2008, CRC/C/GBR/CO/4

⁴ Y Pwyllgor ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, sylwadau terfynol ar 4ydd adroddiad y DU o dan y Cyfamod Rhyngwladol, 5 Mehefin 2002, E/C.12/1/Add.79; gweler hefyd, E/C.12/GBR/CO/5, 22 Mai 2009

- **Y Pwyllgor ar Ddileu Camwahaniaethu yn erbyn Menywod:** dwywaith, yn 2008 a 2013. Yn 2008 dywedodd: "... Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi gyda phryder bod cosb gorfforol yn gyfreithlon yn y cartref, ac yn fath ar drais yn erbyn plant, gan gynnwys plentyn sy'n ferch".⁵ Yn 2013 ail-adroddwyd y pryderon ac ychwanegu "... O gofio argymhelliad cyffredinol Rhif 19 (1992) ar drais yn erbyn menywod, a'r argymhelliad blaenorol, mae'r Pwyllgor yn annog y wladwriaeth berthynol i: ... e) adolygu ei ddeddfwriaeth i wahardd cosb gorfforol i blant yn y cartref."⁶
- Yn fwyaf diweddar, dywedodd y **Pwyllgor yn erbyn Artaith**, yn ei sylwadau terfynol ar bumed adroddiad y DU o dan y Confensiwn yn erbyn arteithio ei fod yn aros dan sylw "bod rhai mathau o gosb gorfforol, gan rieni a rhai *in loco parentis*, yn dal yn cael eu caniatáu yn gyfreithiol yn y cartref ... Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Wladwriaeth wahardd cosbi plant yn gorfforol ym mhob lleoliad yn nhiriogaeth Fetropolitan, Dibynwledydd y Goron a Thiriogaethau Tramor, drwy ddiddymu pob amddiffyniad cyfreithiol sydd mewn lle ar hyn o bryd, a hyrwyddo ymhellach dulliau cadarnhaol di-drais o ddisgyblu drwy ymgyrchoedd cyhoeddus fel dewis arall i gosb gorfforol."⁷

Wrth archwilio'r DU yng nghylchoedd un a dau o'r **Adolygiad Cyfnodol Byd-eang yn y Cyngor Hawliau Dynol**, bu hefyd argymhellion cyson gan wladwriaethau eraill y dylai'r DU wahardd pob cosb gorfforol (2008 a 2012).

Yn Ewrop, yn 2005 ac eto yn 2012, canfu **Pwyllgor Hawliau Cymdeithasol Ewrop**, wrth adolygu cydymffurfiaeth â Siarter Gymdeithasol Ewrop, fod y DU wedi torri'r amodau oherwydd nad oedd wedi gwahardd pob cosb gorfforol yn y teulu. Yn 2008, nododd **Comisiynydd Hawliau Dynol Cyngor Ewrop**, yn dilyn ei ymweliadau â'r DU ym mis Chwefror a Mawrth/Ebrill 2008, mewn Memorandwm ffurfiol i Lywodraeth y DU, nad yw cyfreithiau sy'n caniatáu rhoi "cosbau rhesymol" i blant yn cydymffurfio â safonau hawliau dynol rhyngwladol. "Mae'r ffaith bod gan blant, yn unigryw, *lai* o amddiffyniad o dan y gyfraith droseddol rhag ymosodiad yn camwahaniaethu ymhellach, ac yn amhosibl ei ddychmygu, o ystyried y ffaith bod plant mor amlwg yn arbennig o fregus."⁸

Hefyd yn 2008, lansiodd **Cyngor Ewrop** ymgyrch ledled Ewrop i wahardd pob cosb gorfforol a hybu dulliau cadarnhaol, di-drais o fagu plant ym mhob un o'i 47 aelod-wladwriaeth, gyda'r nod o gyflawni "cyfandir heb gosb gorfforol".⁹ Dyma oedd argymhelliad Cynulliad Seneddol Cyngor Ewrop yn 2004: "Mae'r Cynulliad o'r farn bod unrhyw gosb gorfforol i blant yn torri ar draws eu hawliau sylfaenol o ran urddas dynol ac integriti corfforol. Mae'r ffaith bod cosb gorfforol o'r fath yn dal yn gyfreithlon mewn rhai aelod-wladwriaethau yn torri ar draws eu hawl, sydd yr un mor hanfodol, i'r un amddiffyniad cyfreithiol ag oedolion. Gwaherddir taro

⁵ Y Pwyllgor ar Ddileu Camwahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW), sylwadau terfynol ar 5ed/6ed adroddiad y DU o dan CEDAW, 18 July 2008, CEDAW/C/GBR/CO/6

⁶ Y Pwyllgor ar Ddileu Camwahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW), sylwadau terfynol ar 7 adroddiad y DU o dan CEDAW, 26 July 2013, CEDAW/C/GBR/CO/7 Advance Unedited Version, paras. 34 and 35

⁷ Y Pwyllgor yn Erbyn Artaith, sylwadau terfynol ar y 5ed adroddiad cyfnodol ar y DU, mabwysiadwyd gan y pwyllgor yn ei 50fed sesiwn, 6-31 Mai 2013, 31 Mai 2013

⁸ Memorandwm gan Thomas Hammarberg, Comisiynydd Hawliau Dynol Cyngor Ewrop, yn dilyn ei ymweliadau â'r Deyrnas Unedig, 5-8 Chwefror a 31 Mawrth-2 Ebrill 2008, CommDH(2008)28, Strasbourg, 9 Hydref 2008

⁹ Gweler http://www.coe.int/t/dg3/corporalpunishment/default_en.asp

bod dynol yng nghymdeithas Ewrop, ac mae plant yn fodau dynol. Rhaid dileu parodrwydd cymdeithas a'r gyfraith i dderbyn rhoi cosb gorfforol i blant.”¹⁰

Mae **Llys Hawliau Dynol Ewrop** wedi condemnio cosb gorfforol i blant fwyfwy mewn cyfres o ddyfarniadau yn erbyn y DU ers y 1970au.¹¹ Yn 1998 dyfarnodd y Llys yn yr achos cyntaf oedd yn ymwneud â chosb gorfforol gan riant, A v UK, bod bachgen 9 oed heb dderbyn ei hawliau o dan Erthygl 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (amddiffyniad rhag cosb annynol a diraddiol). Roedd rheithgor Prydeinig wedi rhyddfarnu ei lys-tad, a oedd wedi'i guro'n ddifrifol â chansenn; cyhuddwyd y llys-tad o achosi "niwed corfforol gwirioneddol", ond defnyddiodd amddiffyniad "cosbedigaeth resymol".¹²

O ganlyniad i'r achos hwn, bu'n rhaid i'r Llywodraeth ddod â defnydd o'r amddiffyniad hwn i ben gan y rhai oedd wedi'u cyhuddo o achosi niwed corfforol gwirioneddol ac ymosodiadau mwy difrifol. Felly cyflwynwyd amddiffyniad diwygiedig "cosb resymol" yng Nghymru a Lloegr, trwy Adran 58 o Ddeddf Plant 2004. O dan y ddeddfwriaeth hon, gall rhieni a rhai pobl eraill gyfiawnhau ymosodiad cyffredin fel "cosb resymol" o hyd. Roedd Pwyllgor Gweinidogion Cyngor Ewrop wedi bod yn goruchwyllo gweithredu dyfarniad A v UK gan Lywodraeth y DU ers 1998. Cymerodd 10 mlynedd, hyd at 2008, i'r Pwyllgor dderbyn, o ystyried amgylchiadau penodol yr achos difrifol hwn o gosb gorfforol, fod y camau a gymerwyd gan y DU yn ddigonol. Mae'r Llys wedi'i gyfyngu i ystyried amgylchiadau penodol yr achosion y deuir â hwy ger ei fron.

Astudiaeth Ysgrifennydd Cyffredinol y CU ar Drais yn erbyn Plant

Gofynnodd y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn i Ysgrifennydd Cyffredinol y CU gynnal astudiaeth gynhwysfawr o drais yn erbyn plant yn 2001, gan ddefnyddio'i bwerau o dan Erthygl 45(c) o'r Comisiwn ar Hawliau'r Plentyn. Mae adroddiad 2006 **Astudiaeth Ysgrifennydd Cyffredinol y CU ar Drais yn erbyn Plant** yn galw ar bob gwlad i wahardd pob trais yn erbyn plant, gan gynnwys yn benodol pob cosb gorfforol, fel mater o flaenoriaeth.¹³

Yn ôl yr Athro Paulo Sérgio Pinheiro, yr Arbenigwr Annibynnol a benodwyd gan Ysgrifennydd Cyffredinol y CU i arwain yr astudiaeth:

“Dylai'r Astudiaeth fod yn drobwynt – a dod â chyfiawnhad oedolion dros drais yn erbyn plant i ben, boed hynny ar sail 'traddodiad' neu ynghudd dan deitl 'disgyblaeth'. Ni ellir cyfaddawdu wrth herio trais yn erbyn plant. Mae natur unigryw plant – eu potensial a'u sefyllfa fregus, eu dibyniaeth ar oedolion – yn ei gwneud yn orfodol rhoi mwy o amddiffyniad iddynt, nid llai.”

Diweddarwyd: Medi 2013

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â cau@childreninwales.org.uk neu dimtarocymru@gmail.com

¹⁰Argymhellid 1666/2004 Cynulliad Seneddol Cyngor Ewrop.

¹¹ Cyngor Ewrop *Eliminating corporal punishment: a human rights imperative for Europe's children* 2008

¹² A v United Kingdom, Rhif 25599/94, dyfarniad 23 Medi 1998

¹³ Adroddiad Astudiaeth Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Drais yn erbyn Plant, Paulo Sérgio Pinheiro, A/61/299, paragraffau 97 ac 116; gweler www.unsvac.org